Adroddiad Ôl-Ymgynghori

Greenway Road – Gwaredu Culhau Blaenoriaeth

Rhif Project: CO19064

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 2 Awst 2019 a 23 Awst 2019, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau ei chynnwys yn rhan o'r adroddiad hwn. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fo modd.

O'r 160 o eiddo yr ymgynghorwyd â nhw, a'r 10 hysbysiad safle a roddwyd ar y safle ei hun, cafwyd 4 ymateb unigol, a cheir crynodeb ohonynt isod fel a ganlyn:

- 3 - Cefnogi'r cynnig
- 1 – Cefnogi'r Cynnig ond ddim lleoliad y Groesfan Sebra Ddyrchafedig arfaethedig

Crynhoir y gofidiau a'r sylwadau isod mewn ysgrifen italig, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynllun, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

Bydd y cynllun yn cael gwared ar y mesurau culhau â blaenoriaeth presennol ar Greenway Road ac yn gosod Croesfannau Sebra Dyrchafedig yn eu lle. Bydd hyn yn helpu i leihau cyflymderau cerbydau ar hyd y llwybr hwn a fydd yn gwella diogelwch ar y ffyrdd cyffredinol yn yr ardal ar gyfer holl ddefnyddwyr y ffordd.

Gweler isod y sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn <u>cefnogi</u>'r cynnig:

"Rwy'n e-bostio i roi gwybod i chi fy mod yn croesawu'r newidiadau arfaethedig. Yn rhywun sy'n byw wrth un o'r mesurau culhau hyn, gallaf gadarnhau nad ydynt yn arafu cerbydau'n dda ac yn fy marn i maen nhw'n cynyddu'r risg o ddamweiniau wrth i bobl fethu â stopio. Yn ystod yr oriau prysur, maen nhw hefyd yn creu llawer o draffig. Rwy'n teimlo'n onest y byddai'r newidiadau arfaethedig hyn yn ddewis llawer gwell ar gyfer y ffordd a'r gymuned leol."

"Diolch am gylchredeg yr ymgynghoriad uchod. Rwyf i a fy ngwraig i'n cytuno'n llwyr â'ch cynlluniau. Un sylw os gwelwch: yr un ymwthiol, ar Heron Road... o ystyried mai'r bwriad yw sicrhau traffig sy'n teithio o'r ddwy ffordd yn fwy didrafferth ond yn ddiogel, awgrymir bod angen i'r rhan ymwthiol fod yn eithaf cul? Ond, y naill ffordd neu'r llall, rydym yn cefnogi eich cynlluniau."

"Rwy'n byw ar Greenway Road a ches i'ch llythyr am waredu'r mesurau culhau blaenoriaeth ar y ffordd. Rwyf mewn penbleth o ran hyn ond, rwyf wedi gweld gyrwyr yn goryrru eithaf lot yn benodol gyda'r hwyrnos, o oddeutu 9pm ymlaen. Rwy'n ofni y bydd llawer mwy o bobl yn goryrru ar y ffordd gyda ffordd agored a dim byd i'w stopio. Hoffwn i chi ystyried, yn ystod eich ymgynghoriadau ar y cynlluniau hyn, osod twmpathau neu gamerâu cyflymder wrth waredu'r mesurau culhau hyn. Os nad yw hyn yn bosibl, oes unrhyw fesurau rheoleiddio cyflymderau eraill y gellir eu rhoi ar waith?"

Mae'r paragraff uchod yn nodi bod yr ymatebydd yn cefnogi'r cynllun ond mae wedi dweud y bydd gwaredu'r mesur culhau hwn a pheidio â chyflwyno mesurau eraill yn cynyddu cyflymderau cerbydau. Fodd bynnag, dan y cynnig hwn rydym yn rhoi Croesfannau Sebra Dyrchafedig yn eu lle a fydd yn sicrhau bod cyflymderau cerbydau'n cael lleihau. Felly, nid yw'r pryderon a godwyd uchod yn ddilys ac nid oes angen ymateb yn ffurfiol iddynt.

Gweler isod y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd <u>yn erbyn</u> y cynnig:

Mater "Hoffwn i wrthwynebu'r Cynllun Project Trafnidiaeth arfaethedig cyfredol.

Rwyf wedi byw ar Greenway Road yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ac rwy'n ddigon anffodus o gael mesur uno ffordd y tu allan i fy eiddo.

Ers prynu'r eiddo, rwyf wedi tystio 2 ddamwain ffordd ar wahân o ganlyniad uniongyrchol i'r mesur uno ffordd ac mae hefyd lygredd sŵn cyson o ganlyniad i yrwyr yn defnyddio eu cyrn yn eithafol wrth nesáu at y mesur uno ffordd i rybuddio gyrwyr eraill i gadw draw.

Yn y gorffennol rwyf wedi codi'r pryderon hyn am y mesur uno ffordd y tu allan i'r eiddo i Jacqueline Parry a Bob Derbyshire; swyddogion lleol y Cyngor.

Byddai'r cynllun cyfredol i waredu'r mesur uno ffordd yn cael ei groesawu, ond rwy'n gwrthwynebu'n gryf y bwriad i osod croesfan sebra yn y lleoliad hwn gan y byddai'n atal mynediad i gerbydau i fy eiddo."

Yn rhan o adolygiad o'r Ddinas Gyfan, rydym yn gwaredu nifer o fesurau Culhau Blaenoriaeth a rhoi mesurau eraill (megis byrddau arafu) yn eu lle, lle bo arian ar gael i

wneud hynny. Cynhaliwyd arolygon yn ystod y cam dylunio cychwynnol a nododd bod croesfan i gerddwyr yn y lleoliad hwn yn agos at y mesurau culhau cyfredol ar hyn o bryd.

Dan Ddeddf Priffyrdd 1980, mae'n rhaid i unrhyw un sydd am yrru ar draws y droedffordd er mwyn parcio ei gerbyd ar ei eiddo fod wedi adeiladu croesfan gerbydau awdurdodedig. Croesfannau cerbydau yw pan fo cyrbau wedi'u gostwng o'u huchder arferol a'r palmant neu lain ymyl wedi'u cryfhau i ddal pwysau'r cerbyd sy'n eu croesi er mwyn osgoi achosi difrod i'r palmant, pibelli neu geblau sydd wedi'u claddu oddi tanynt.

Ar hyn o bryd, nid oes croesfan i gerbydau yn y lleoliad hwn ac felly mae unrhyw drigolion sy'n gyrru ar draws y droedffordd lle nad oes croesfan i gerbydau yn gwneud felly'n anghyfreithlon.

Ein Tîm Trwyddedu'r Briffordd sy'n gyfrifol am geisiadau Croesfannau i Gerbydau, os yw trigolyn am wneud cais am groesfan i gerbydau ffurfiol, mae mwy o fanylion am sut mae gwneud cais ar gael yma:

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Busnes/Trwyddedau/Ffyrdd-a-phriffyrdd/Trwyddedau-ffyrdd-a-phriffyrdd-eraill/croesfannau-i-gerbydau/Pages/default.aspx

Er mwyn diogelu cerddwyr sy'n defnyddio'r groesfan, bydd angen cyflwyno bolard yn agos at lleoliad arfaethedig y palmant botymog. Fodd bynnag, bydd digon o led o hyd os bydd unrhyw drigolion am wneud cais ffurfiol am groesfan i gerbydau yn y lleoliad hwn.

Mater: "Hoffwn i hefyd godi'r ffaith fod lleoliadau eraill sydd ar gael yn yr ardal a allai gyflawni'r un canlyniadau heb flocio mynediad at unrhyw eiddo. Gellir lleoli hyn y tu allan i fflatiau 1-33 a 62-84 Greenway Court gan na fyddai mynediad at yr eiddo hyn yn cael ei rwystro trwy leoliad croesfan sebra."

Yn dilyn adborth wedi'i dderbyn yn rhan o'r ymgynghoriad hwn trefnon ni i'n Tîm Dylunio Manwl ymchwilio i weld a ellir ail-leoli'r Groesfan Sebra yn fwy i'r gogledd yn agosach at gyffordd y Heron Road. Cynhaliwyd Arolygon Topograffig a nododd nad oes digon o led i gyflwyno Croesfan Sebra Ddyrchafedig yn y lleoliad hwn, ac felly'r unig lleoliad posibl ar gyfer y Groesfan Sebra Ddyrchafedig yw'r unig a gynigiwyd yn wreiddiol.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.

CARDIFF
CAERDYDD



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.

CARDIFF
CAERDYDD

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.

CARDIFF
CAERDYDD



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.

CARDIFF
CAERDYDD

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.

CARDIFF
CAERDYDD



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.

CARDIFF
CAERDYDD